Y Rhai sy'n Gofalu

Darlleniad: Philipiaid 4: 10-20

O! Dduw, ein Gwaredwr, tydi, yr hwn a ddaeth o'r nefoedd i'n daear ni i dy uniaethu dy hun â ni, tydi, yr hwn a lafuriodd fel saer, a iachaodd y cleifion, a fu'n athro i'r di-ddysg, tydi, yr hwn a brofodd dlodi a newyn a syched a blinder marwol, gwrando yn awr ein deisyfiadau.

Gwrando ein gweddi dros bawb sydd, trwy ofalu am eraill, yn dilyn ôl dy droed, ac yn efelychu'r ysbryd o wasanaeth ac ymroddiad a ddangosaist yng Nghapernaum flynyddoedd maith yn ôl.

Gweddïwn dros feddygon sy'n trin corff a meddwl, a llawfeddygon sydd, â'u medrusrwydd, yn gwella clwy ac yn lliniaru poen.

Gweddïwn dros bawb sy'n gweini ar gleifion, ac yn gofalu am yr hen, y methedig, a'r amddifad.

Gweddïwn dros fydwragedd yn ein hysbytai wrth iddynt gynorthwyo mamau yn awr eu llafur i ddod â bywyd newydd i olau dydd, ac am eu gofal cyson am y teulu.

Gweddïwn dros y rhai sy'n gyfrifol am 'gymorth cyntaf' - gwŷr a gwragedd yr ambiwlans, y frigâd dân, a'r bad achub. Diolchwn am eu dewrder a'u diysgogrwydd cysurlon mewn argyfwng a pherygl.

Gweddïwn dros rieni yn eu gofal cariadlon o'u plant.

Gweddïwn dros athrawon ysgolion a cholegau yn eu gwaith o hyfforddi ein plant a'n pobl ifainc.

Gweddïwn dros y rhai sy'n gofalu am ein hanghenion ysbrydol, yn offeiriaid a gweinidogion.
Gweddïwn dros y rhai sy'n gweithio dramor, megis cenhadon sy'n

rhannu'r newyddion da mewn gair a gweithred.

Gweddïwn dros weithwyr cymdeithasol a phawb sydd ynghlwm wrth waith gwirfoddol.

Gweddïwn dros bob gwaith ymchwil gan wyddonwyr fydd yn cynyddu ein gallu i drin afiechydon o bob math, ac yn gwella ein safon byw mewn amryfal ffyrdd ymhell i'r dyfodol.

Gweddïwn dros fudiadau dyngarol; mudiadau megis Cymorth Cristnogol, Oxfam, Cafod, Y Samariaid, a llu o rai eraill.

Gweddïwn dros y rhai di-sôn-amdanynt; y rhai sydd bob amser yn barod iawn eu cymwynas, a heb ddisgwyl cymwynas yn ôl. Pobl y gallwn ddweud amdanynt eu bod yn halen y ddaear!

Gweddïwn dros y rhai sy'n gyfrifol am gyfraith a threfn - yr heddlu, cyfreithwyr, barnwyr, a'r rhai sy'n gofalu am garchardai.

A gweddïwn dros y rhai sy'n ein hamddiffyn ar dir, môr ac yn yr awyr.

O! Arglwydd, ein Tad Nefol, yr hwn yn ôl dy ragluniaeth sy'n pennu ac yn trefnu ein gwahanol ddyletswyddau, caniatâ i bawb ohonom ysbryd i ymdrechu â chalon lawen i gyflawni ein gwaith yn ein gwahanol gylchoedd fel rhai'n gwasanaethu un Meistr ac yn chwilio am un wobr. Dysg inni wneud y defnydd gorau o ba dalentau bynnag a roddaist inni, a galluoga ni i brynu'r amser gyda mawr amynedd a sêl, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Dewi Roberts